IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU A

Dydd Mawrth, 26 Chwefror 2019

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd J.M. Charles (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr:
A.L. Fox, J.K. Howell a D.E. Williams

Yn bresennol fel cynrychiolwyr Awdurdod Cyfrifol:-
Mr M. Price, Heddlu Dyfed-Powys;
E. Jones, Pen-swyddog Trwyddedu, Cyngor Sir Caerfyrddin

Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:
A. Evans, Cyfreithiwr Cynorthwyol
A. Rees, Swyddog Trwyddedu
L. Jenkins, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP. - 10.30 - 10.45 yb

1. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL.

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

2. CAIS AM DRWYDDED PERSONOL SARAH PEARCE, FLAT 2. 2-4 NORTON ROAD, PENYGROES, LLANELLI SA14 7RS

Gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried cais gan Ms Sarah Pearce am drwydded bersonol, o dan Adran 117 o Ddeddf Trwyddedu 2003.

Mae'r heddlu wedi gwrthwynebu'r cais o dan adran 120(5) o Ddeddf Trwyddedu 2003, gan fod yr ymgeisydd wedi cael ei dyfarnu'n euog o "drosedd berthnasol" a restrir yn Atodlen 4 o'r Ddeddf, gan ei fod o'r farn y byddai caniatáu'r cais yn tanseilio'r Amcan Atal Troseddau a nodir yn Neddf 2003.

Nid oedd yr ymgeisydd wedi dod i'r cyfarfod, nac wedi rhoi unrhyw esboniad am ei habsenoldeb.

Ar ôl trafodaeth:

PENDERFYNODD yr Is-bwyllgor arfer ei bwerau dan adran 11 o Reoliadau (Gwrandawiadau) 2005 Deddf Trwyddedu 2003 i ymestyn am 6 wythnos arall y terfyn amser o ran gwrandawiad y cais hwn, er mwyn gohirio ystyried y cais tan gyfarfod nesaf yr is-bwyllgor.

RHESYMAU

Roedd yr aelodau o'r farn bod ymestyn y terfyn amser a gohirio'r mater er budd y cyhoedd, er mwyn rhoi cyfle arall i'r Ymgeisydd fynychu'r cyfarfod a chyflwyno sylwadau o blaid ei chais.

CADEIRYDD **DYDDIAD**